# Cynllun Gweithredu Môn a Menai

Chwefror 2008



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Rhagair

Ymateb gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid yw rhaglen Môn a Menai, i gau a dadgomisiynu Gorsaf Bŵer Wylfa a'i effeithiau, gan harneisio a defnyddio cryfderau a photensial datblygu yr ardal trwy fabwysiadu dull strategol yn seiliedig ar bartneriaeth.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn tystio i ffocws arbennig Llywodraeth y Cynulliad ar ateb heriau Môn a Menai ac ar uchafu cyfleoedd yr ardal er budd cymunedau lleol. Nid ymarferiad ar bapur yw hwn. Bydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei roi ar waith, a bydd yn gwneud gwahaniaeth.

Ffrwyth llafur amryw o gyrff yn cydweithio mewn ffyrdd newydd yw'r Cynllun Gweithredu. Mae'n dadansoddi materion allweddol ar gyfer yr economi a chymunedau lleol, a'r hyn sydd angen ei wneud i symud yr ardal yn ei blaen ar yr adeg hon o ailstrwythuro diwydiannol. Credwn y bydd y prosiect a'r buddsoddiad a amlinellir yma yn gwneud gwir wahaniaeth i Fôn a Menai. Byddant yn gosod sylfeini modern i alluogi sgiliau ac entrepreneuriaeth leol i elwa ac i ddenu buddsoddiad preifat a chyhoeddus newydd a sylweddol, gan roi momentwm cynaliadwy i adfywio'r ardal. Credaf y gall datblygiad economaidd ardal Môn a Menai hefyd helpu i gynnal a chryfhau'r iaith Gymraeg.

Ac yn union fel y mae'r Cynllun Gweithredu yn ffrwyth gwaith amryw o ddwylo, felly hefyd y daw llwyddiant trwy barhau i gydweithredu ar draws y sector cyhoeddus ac alinio buddsoddiadau eraill. Y gallu hwn i integreiddio adnoddau a gwasanaethau er mwyn mynd i'r afael â'n problemau sy'n gwneud y Gymru newydd yn lle cyffrous i fod ynddo heddiw - yn enwedig os ydych yn gweithio ym maes adfywio. Credaf y bydd y ffordd o weithio a ddatblygwyd ymysg ein gilydd ym Môn a Menai, ynghyd â'r Cynllun Gweithredu hwn, yn batrwm o ran llwyddiant lleol ac o ran dangos sut y gall cenedl fechan fynd i'r afael â'r amryw o heriau sy'n ei hwynebu, gan groesawu a gwneud y gorau o newid, a chadw ei hunaniaeth ar yr un pryd. Dyma, yn anad dim, yw ein nod ym Môn a Menai, lle rydym yn creu dyfodol newydd gyda'n gilydd yn y bröydd hyn sy'n fwrlwm o hanes a diwylliant - gan fod yn ymwybodol o'n hymrwymiad i'n gorffennol, ond hefyd yn edrych ymlaen at ddechreuadau newydd. Mae'r dyfodol yn dechrau nawr, gyda'r bartneriaeth hon, y Cynllun Gweithredu hwn a'r cymunedau hyn.



***Leighton Andrews AC,***
***Y Dirprwy Weinidog dros Adfywio***

# Ein Gweledigaeth




Mae heriau pwysig yn wynebu economi Gogledd-orllewin Cymru, ac nid y lleiaf o'r rhain yn deillio o gau Gorsaf Bŵer Wylfa a'i oblygiadau posibl o ran cyflogaeth yn yr ardal, i fusnesau eraill ac i'r ardal ehangach. Er mwyn cryfhau cystadleurwydd economaidd yn yr is-ranbarth a lliniaru effaith cau'r Wylfa, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sefydlu rhaglen adfywio gynhwysfawr ar gyfer yr ardal, i'w chyflwyno mewn partneriaeth.

Ein gweledigaeth yw y bydd Môn a Menai, dros y tair blynedd nesaf, yn cynnig y canlynol i'r bobl hynny sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â'r ardal:

- economi ddynamig gydag ystod amrywiol a chynyddol o fusnesau arloesol.
- gweithlu medrus a hyblyg i gwrdd ag anghenion economaidd y dyfodol.
- darpariaeth gref ar gyfer twristiaid, gan uchafu'r cyfleoedd a gynigir gan dreftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol unigryw yr ardal a'i hamgylchedd o ansawdd uchel sy'n cynnig ystod o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau awyr agored.
- canol trefi a mannau cyhoeddus deniadol, yn cynnig cyfleusterau modern i drigolion ac ymwelwyr.

**Rydym yn cychwyn o sefyllfa lle…**

- Mae tirwedd ddemograffig Môn a Menai yn newid. Mae ardal y rhaglen yn gartref i dros 125,000 o bobl, gyda rhagor na 60% ohonynt yn siaradwyr Cymraeg. Er bod y boblogaeth hon, at ei gilydd, yn cynyddu, cafwyd gostyngiad sylweddol yn niferoedd y bobl ifanc sy'n byw yn yr ardal, ynghyd â chynnydd cyfatebol yng nghyfran y trigolion sydd o oedran ymddeol neu'n hŷn. Os ydym am gynnal a chryfhau'r iaith Gymraeg yn yr ardal hon, rhaid i ni sicrhau bod yna amrywiaeth eang o swyddi o ansawdd uchel, i angori pobl ifanc yn eu cymunedau.

- Ceir pocedi o amddifadedd sylweddol yng Ngogledd a Gorllewin Môn ac yn ardaloedd Caernarfon a Bangor. Mae naw o wardiau Cymunedau yn Gyntaf o fewn ardal y Rhaglen.

- Yn draddodiadol, er bod llawer yn gyffredin rhwng economi'r ardal ac economi Cymru gyfan, mae trigolion ardal Môn a Menai, o ran gwaith a lles, wedi dibynnu ar nifer gymharol fechan o gyflogwyr mawr. Mae Wylfa ac Alwminiwm Môn yn gyflogwyr sylweddol yn yr economi leol, gyda bron i 1700 o swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol rhyngddynt, a chyflogau ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer yr ardal. Fodd bynnag, mae'r sylfaen microfusnesau ym Môn hefyd yn gryf, ac yn cyfrif am oddeutu 40% o swyddi yn y sector preifat (o gymharu ag oddeutu 30% ar gyfer Cymru gyfan).

- Ynys Môn sydd ag un o'r lefelau Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) isaf yn y DU (ar 53% o gyfartaledd y DU). Mae cymudo sylweddol ynghyd â phoblogaeth gymharol uchel o bensiynwyr hefyd yn ffactorau dylanwadol. Fodd bynnag, mae incwm gwario cartrefi ar draws yr ardal (sy'n well mesur o safonau byw) yn cymharu'n fwy ffafriol â gweddill y DU.

- Er gwaethaf cynnydd yn y galw am lafur gan gyflogwyr, mae 23.1% o'r boblogaeth o oedran gweithio (ac eithrio myfyrwyr) ym Môn a 21.5% yn Arfon yn economaidd anweithgar. Mae hyn yn cymharu â ffigurau o 19.8% ledled Gogledd Cymru a 21.3% yng Nghymru.

- Mae cyfran sylweddol is o bobl sydd berchen ar eu cartrefi eu hunain yn yr ardal o gymharu â Chymru gyfan (66.1% o gymharu â 71.3% yng Nghymru). Gall hyn awgrymu anghydbwysedd rhwng prisiau tai a chyflogau yn yr ardal.

- Er bod cyflogaeth yn yr ardal yn cymharu'n gyffredinol â'r lefelau a geir mewn rhannau eraill o Gymru, mae nifer uchel yn hawlio lwfans Ceisio Gwaith yn gyson, gyda 23% yn hawlio am fwy na deuddeg mis o gymharu â 13% yng Nghymru gyfan. Ceir hefyd fwlch sylweddol rhwng y cyfraddau diweithdra ILO ym Môn (5.9%) ac Arfon (3.3%), sydd, fe ddichon, yn adlewyrchu uchafiaeth gymharol rhai o'r cyflogwyr mawr sector cyhoeddus yn ardal Arfon, a'r cyfleoedd gwaith sy'n deillio ohonynt.

**Rydym am gyrraedd sefyllfa lle mae Môn a Menai…**

- ag economi sy'n fwy cytbwys ac iddi sylfaen ehangach, gan adeiladu ar y potensial twf mewn sectorau allweddol gan gynnwys twristiaeth ac adeiladu, gyda Phrifysgol Bangor yn chwarae rhan allweddol o ran datblygu sgiliau a masnacheiddio ymchwil.

- yn gydnabyddedig fel porth allweddol i Gymru/o Gymru ac yn goridor pwysig i gludiant Ewropeaidd, yn cysylltu Iwerddon a'r DU. Yn 2006 aeth 2.1 miliwn o deithwyr trwy Gaergybi, a thrwy'r cysylltiad ag ardal fetropolitanaidd Dulyn mae'n cynnig amrediad o gyfleoedd economaidd a thwristiaeth/hamdden, gyda chymorth rhaglen INTERREG.

- yn gallu cynnig rhwydwaith cryf o aneddiadau cysylltiedig, sef 'Canolbwynt Menai' – yng Nghynllun Gofodol Cymru, nodir ardal Caernarfon, Bangor, Porthaethwy a draw tua Llangefni yn ardal â photensial i sbarduno datblygiad cymdeithasol ac economaidd ac i ledaenu ffyniant i ardaloedd cyfagos.

- yn gwneud y mwyaf o'i photensial o ran twristiaeth, gan gynnwys yr arfordir a chefn gwlad ardderchog, sy'n cynnig cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored, a safleoedd pwysig fel Caernarfon â'i harwyddocâd hanesyddol, gan elwa ar draddodiadau cryf yr ardal o ran y Gymraeg a'r dreftadaeth ddiwylliannol a chymdeithasol bwysig.



*Galeri, Caernarfon*

- Yn denu buddsoddiad newydd ar raddfa a ragwelwyd eisoes yng ngweithrediad Safon Ansawdd Tai Cymru, cyflwyno'r rhwydwaith fusnes Cyflymder Ffeibr band eang ar gost o £28m, a lleoliad y jet gyflym Hawk 128 a phencadlys Gwasanaeth Achub yn RAF Y Fali.

# Sut Ydym Ni'n Mynd i Wneud Gwahaniaeth?

Byddwn yn defnyddio cyllid ychwanegol yng nghyfnod y Trydydd Cynulliad er mwyn sicrhau bod y buddsoddiad a wnaed eisoes yn yr ardal trwy lywodraeth ganol a lleol yn cael ei wario mewn ffordd fwy strategol ac integredig, gan ddenu cyllid sylweddol o ffynonellau eraill, gan gynnwys y sector preifat.

Bydd ein buddsoddiad yn sicrhau:

- ein bod yn cyflawni targedau allweddol trwy gydweithio
- bod manteision gwirioneddol yn cael eu cyflwyno ar draws yr ardal ehangach
- y defnyddir asedau i'r eithaf
- y gwneir y defnydd eithaf o fuddsoddiad o'r sector preifat
- y gwneir defnydd eithaf o arian ac adnoddau, gan uchafu gwerth ychwanegol a gwerth am arian
- cyflawni adenillion da ar fuddsoddiad
- prif ffrydio cynaliadwyedd ar draws bob gweithgarwch

Defnyddir y cyllid arbennig ychwanegol fel catalydd, gan ysgogi a chyfeirio adnoddau rhanddeiliaid tuag at weithredu'r nodau strategol a gytunwyd ar gyfer Môn a Menai.

Denir buddsoddiad ychwanegol gan y sector preifat dros oes y rhaglen trwy brosiectau ar y cyd.

Oherwydd y cysylltiad agos rhwng y Cynllun Gweithredu hwn a blaenoriaethau Rhaglen Gydgyfeirio yr UE, rhagwelir hefyd y bydd Cronfeydd Strwythurol yr UE hefyd yn cael eu tynnu i lawr, yn enwedig ar gyfer y meysydd canlynol :

- gwybodaeth ac arloesi
- creu amgylchedd busnes ffafriol
- adeiladu cymunedau cynaliadwy
- cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch
- gwella lefelau sgiliau
- adeiladu gallu gweinyddol gwasanaethau cyhoeddus

Gwneir defnydd llawn hefyd o gyllid arall sydd ar gael o dan Amcan Cydweithio Tiriogaethol yr UE ar gyfer cydweithio trawsffiniol, yn enwedig rhaglenni Cymru-Iwerddon, Bwa'r Iwerydd a Gogledd-orllewin Ewrop.

Mae'r rhaglen hefyd yn bodloni amcanion sefydliadau cyllido allweddol eraill, yn enwedig yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear (NDA) sy'n ariannu polisi economaidd-gymdeithasol ac sydd wedi dynodi Môn a Meirionnydd yn ardal flaenoriaeth.

# Cyfleoedd

Mae i ardal Môn a Menai amryw o briodoleddau cadarnhaol ac unigryw. Rhai cyfleoedd allweddol yw:

- **Canolbwynt Menai fel sbardun economaidd posibl ar gyfer Gogledd-orllewin Cymru**

  Gallai gwell cysylltedd rhwng y trefi ar hyd Afon Menai – Caernarfon, Bangor, Porthaethwy ac ymlaen i Langefni – gynnig posibiliadau sylweddol o ran datblygu economaidd a chymdeithasol, gan ddylanwadu ar y rhanbarth ehangach. Gallai greu llawer gwell mynediad at swyddi, gan wella hyfywedd gwasanaethau manwerthu a hamdden. Ynghyd â gweithredu ar dai fforddiadwy, dylai'r datblygiadau hyn wella'r rhagolygon ar gyfer cadw mwy o bobl ifanc yn yr ardal.

- **Symud tuag at ddatblygu economi â gwerth ychwanegol uwch**

  Mae gan Brifysgol Bangor ran allweddol i'w chwarae o ran cefnogi'r gwaith o ddatblygu economi wybodaeth hyderus sy'n edrych tuag allan, yn gysylltiedig, o bosibl â'r sector morwrol ac ynni môr yn ogystal ag ymateb i gyfleoedd ymchwil a datblygu cysylltiedig â diwydiannau lleol. Daw cyfleoedd hefyd o safle'r ardal fel porth rhyngwladol a choridor cludiant allweddol. Mae golygfeydd eithriadol y rhanbarth, gan gynnwys yr arfordir, a'i threftadaeth ecolegol a hanesyddol yn gwneud atyniad twristiaeth gynaliadwy ac o werth uwch yn bosibl iawn.



*Technium CAST*

- **Asedau diwylliannol unigryw**

  Mae traddodiadau diwylliannol cryf yr ardal, ynghyd â'r sector cyfryngau arwyddocaol, yn cynnig posibiliadau sylweddol o ran twf economaidd, twristiaeth a hamdden, gyda chefnogaeth Prifysgol Bangor a chanolfannau rhagoriaeth megis Galeri Caernarfon a Gŵyl y Faenol. Credwn y gellir gwneud mwy i hybu'r Gymraeg fel ased byw yn yr ardal. Mae'r enw da sydd gan yr ardal o ran cynnyrch o ansawdd mewn marchnadoedd arbenigol, yn enwedig bwyd (ym meysydd amaeth a dyframaeth), hefyd yn cynnig potensial.

- **Agosrwydd at Iwerddon**

  Mae ardal fetropolitanaidd Dulyn yn cynnig cyfleoedd sylweddol ar gyfer cydweithio a datblygiad economaidd yn ogystal â bod yn farchnad dwristiaeth a hamdden. Mae rhaglen drawsffiniol Cymru-Iwerddon yn bodoli er mwyn hybu a chefnogi gweithgareddau o'r fath ar y cyd ac mae cyfleoedd i ddatblygu cysylltiadau masnachol megis marchnata i'r diwydiant mordeithio a chydweithio rhwng busnesau creadigol.

- **Safon Ansawdd Tai Cymru 2012 a'r galw am adeiladu**

  Mae Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) yn ei gwneud yn ofynnol i bob landlord cymdeithasol wella'u stoc dai hyd at lefel dderbyniol erbyn 2012. Bydd gweithrediad SATC yn ardal Môn a Menai yn creu buddsoddiad ychwanegol sylweddol mewn swyddi yn y sector adeiladu. O fewn amserlen gyffelyb, mae'n debygol hefyd y bydd galw mawr am adeiladu yn deillio o amrediad o gontractau adeiladu yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys dadgomisiynu Wylfa. Bydd ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i BREEAM a safonau adeiladu cysylltiedig ar draws y sectorau adeiladu masnachol a thai, hefyd yn ystyriaeth bwysig.

- **Cyflymder Ffeibr – seilwaith telathrebu y genhedlaeth nesaf**

  Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi buddsoddi £28m ar ddatblygu'r rhwydwaith Cyflymder Ffeibr er mwyn sicrhau bod gwasanaethau band eang ar gael mewn parciau busnes a lleoliadau strategol yng Ngogledd Cymru, am bris fforddiadwy. Dylai marchnata gweithgar ac uchafu'r defnydd o'r gwasanaethau hyn, gyda phwyslais ar arloesi, gynnig cyfle i wella cystadleurwydd busnes.

- **Cyswllt Awyren Gogledd-De**

  Mae cyfleoedd sylweddol i gludiant cyhoeddus yn deillio o wella'r ffyrdd, ynghyd â chyflwyno'r cyswllt hedfan uniongyrchol rhwng Môn a Chaerdydd, mewn ychydig dros awr, gan wneud teithio rhwng y De a'r Gogledd yn gyflym a hwylus.

- **RAF Y Fali**

  Mae RAF Y Fali yn gartref i oddeutu 650 o swyddi i sifiliaid yn cefnogi sgwadronau'r awyrlu. Gyda chyflwyno'r jet gyflym Hawk 128 yn fuan ac adleoli pencadlys Gwasanaeth Achub y DU i'r ganolfan yn sicrhau ei dyfodol yn y tymor byr a chanolig. Erbyn hyn, mae cyfleoedd yn agored i ddatblygu'r gweithlu a sicrhau cyflogaeth ychwanegol trwy gyflwyno gweithrediadau newydd a chyfleoedd masnachol cysylltiedig.

- **Yr Academi Sgiliau Genedlaethol – Niwclear**

  Sefydlwyd yr Academi er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau yn y ddarpariaeth sgiliau a hyfforddiant ar gyfer cwrdd ag anghenion presennol y diwydiant niwclear ac yn y dyfodol. Bydd yr Academi (gyda chymorth cyflogwyr) yn datblygu portffolio o atebion a chynnyrch, gan ganolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu sgiliau technegol a galwedigaethol ac yn mynd i'r afael â'r angen am reolaeth prosiectau ac arweinyddiaeth ar lefel uwch. Ar sail model 'canolbwynt ac adain' daw 'adain' Cymru a manteision a chyfleoedd i gyflogwyr a darparwyr hyfforddiant yn is-ranbarth Gogledd-orllewin Cymru, gan gynnwys Wylfa a Thrawsfynydd.




*Parc Menai*

# Materion

Materion allweddol sy'n effeithio ar yr ardal yw:

- **Newid economaidd**

  Gall dadgomisiynu Wylfa a'r risgiau cysylltiedig i Alwminiwm Môn a busnesau eraill fod ag arwyddocâd pwysig i'r economi leol a rhanbarthol. Mae yna synergeddau arwyddocaol rhwng gweithrediadau yn yr Wylfa a'r safle dadgomisiynu yn Nhrawsfynydd. Wrth gydnabod hyn, dynodwyd Môn a Meirionnydd yn ardal flaenoriaeth o ran cymorth gyda Strategaeth economaidd-gymdeithasol yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear. Cwtogir yn sylweddol ar swyddi yn safle Trawsfynydd dros gyfnod y rhaglen.




- **Seilwaith**

  Mae angen cynnal asesiad pellach ar allu'r prif rwydweithiau cyflenwi cyfleustodau a'u gallu i ymdopi â phwysau gan ddatblygiadau'r dyfodol. Wrth i drafodaethau fynd rhagddynt, ar y cyd â phartneriaid datblygu posibl yn y sector preifat a'r cwmnïau cyfleustodau, bydd canlyniadau'r ymchwiliadau angenrheidiol o bwys allweddol i ddatblygiad y rhanbarth i'r dyfodol.

  Gall y tagfeydd a achosir yn sgil y defnydd cynyddol o'r rhwydwaith ffyrdd, gan gynnwys yr A487 yng Nghaernarfon, yr A55 ar Bont Britannia a'r ffordd yn arwain i Gaergybi, fod yn ffactorau a fydd yn cyfyngu ar dwf yr ardal.

- **Sgiliau ar gyfer Sectorau Allweddol**

  Yn ystod oes y rhaglen, mae'n debygol y bydd galw cynyddol am sgiliau mewn sectorau sy'n datblygu, megis twristiaeth (er enghraifft, gwasanaeth cwsmeriaid a choginio/arlwyo), microgynhyrchu ac ynni adnewyddadwy. Mae'n debygol y bydd galw uchel yn y sectorau allweddol canlynol:

  *Niwclear:* bydd yn bwysig ailhyfforddi a chyflwyno sgiliau newydd i weithluoedd presennol Wylfa a Thrawsfynydd, cyn, ac yn ystod y camau dadgomisiynu. Blaenoriaeth arall fydd yr angen i uchafu cyflogaeth leol yn ystod y dadgomisiynu a galluogi cwmnïau adeiladu a pheirianneg lleol i sicrhau contractau cysylltiedig â dadgomisiynu.

  *Peirianneg:* er mai cynrychiolaeth gymharol wan sydd i'r sector peirianneg yn yr is-ranbarth, dengys astudiaethau diweddar bod yna brinder pobl (yn enwedig pobl ifanc) â sgiliau y mae Busnesau Bach a Chanolig a chyflogwyr mwy yn chwilio amdanynt, a sgiliau ar lefel uwch yn enwedig. Bydd angen mynd i'r afael â'r prinder pobl sy'n cychwyn yn y maes ar hyn o bryd a'r galw yn y dyfodol am staff technegol

medrus i gefnogi gweithrediadau RAF Y Fali wrth iddynt ehangu, lle bydd cynnydd sylweddol yn nifer y swyddi i sifiliaid yn y blynyddoedd i ddod.

*Adeiladu:* Mae'n debygol y bydd cynnydd sylweddol yn y tymor byr-canolig yn y galw am weithwyr yn y sector adeiladu. Mae'r Ganolfan Sgiliau Adeiladu newydd yng Ngholeg Menai yn cael ei datblygu mewn ymateb i anghenion hyfforddi cwmnïau lleol ac i'r her strategol a ddaw yn sgil prosiect Wylfa.


*Wylfa*

*Awyr Agored/Hamdden:* Amcangyfrifir bod y sector awyr agored yn cyfrannu tua £140m y flwyddyn i economi Gogledd-orllewin Cymru. Er bod y diwydiant yn creu llawer iawn o swyddi, llai na hanner y rhai a gyflogir yn uniongyrchol o fewn y diwydiant sy'n gweithio drwy gydol y flwyddyn. Mae'r diwydiant hefyd yn ddibynnol iawn ar bobl yn gweithio ar eu liwt eu hunain. Mae'r ddibyniaeth hon, ynghyd â'r cyfraddau trosiant cymharol uchel, yn cyflwyno heriau o ran uwchsgilio a hyfforddi ar draws y sector. Mae cyfraniad llawn y sector i'r economi leol eto i'w sylweddoli, yn enwedig o ran darparu gwaith i'r boblogaeth frodorol.

Byddwn yn gweithio gyda chyflogwyr a'r asiantaethau priodol gan geisio hybu ac amlygu'r cyfleoedd gwaith i'r boblogaeth frodorol yn deillio o'r sectorau allweddol.

- **Canol Trefi**

Mae pwysigrwydd ansawdd canol trefi a mannau cyhoeddus i ffyniant economaidd wedi'i ddogfennu'n amlwg, ac yn aml yn elfen allweddol o ran denu mewnfuddsoddiad. Mae ymwelwyr a thrigolion lleol fel ei gilydd yn dod yn fwy soffistigedig ac yn cymharu canolfannau lleol a'u hamgylcheddau â rhai pellach i ffwrdd. Felly mae creu mannau cyhoeddus sy'n ddigon diogel, deniadol a chyfforddus i'w defnyddio, yn hanfodol. Nid yw'r prif ganol trefi yn ardal Môn a Menai, ar hyn o bryd, yn cyflawni eu potensial llawn.

# Cyflawni ein Gweledigaeth

Datblygir a chyflwynir rhaglen Môn a Menai, dan arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru, mwn partneriaeth â rhanddeiliaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol/cymunedol. Y prif bartneriaid yw Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd, yr undebau llafur, Prifysgol Bangor, Coleg Menai, yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear a'r sector preifat.

Bydd cyflawni ein gweledigaeth yn helpu i gyflwyno blaenoriaethau Cynllun Gofodol Gogledd-orllewin Cymru a bydd yn cynnwys targedau gweithredu mewn meysydd allweddol, gan gynnwys:

## *Economi ddynamig*

- *Y Brifysgol a Masnacheiddio trosglwyddo gwybodaeth*

  Yng nghyd-destun mentrau cenedlaethol i sbarduno masnacheiddio syniadau ac ehangu ymchwil a datblygu, byddwn yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i weithio gyda Phrifysgol Bangor, y sector preifat a phartneriaid eraill er mwyn datblygu economi wybodaeth hyderus, sy'n edrych tuag allan, gan gysylltu, o bosibl, â'r sectorau morwrol ac ynni morol, sy'n ehangu.

- *Gwelliannau seilwaith*

  Byddwn yn annog buddsoddi mewn gwelliannau seilwaith, gan gynnwys dŵr ac ynni. Byddwn hefyd yn anelu at uchafu defnydd a manteision y rhwydwaith Cyflymder Ffeibr, a ddaw â gwell cysylltedd i leoliadau busnes allweddol.

- *Datblygu cadwynau cyflenwi*

  Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a gweithredu strategaethau cadwyn gyflenwi ar gyfer sectorau a chyflogwyr allweddol, gan gynnwys Wylfa yn arbennig. Bydd y ffocws ar sicrhau cyfleoedd i fusnesau lleol Cymreig a sicrhau eu bod yn barod i gwrdd â safonau a galw modern.

## *Gweithlu medrus a hyblyg*

- *Y Clwstwr Hyfforddi Rhanbarthol ar gyfer Sgiliau Niwclear*

  Byddwn yn cefnogi gwaith y Clwstwr Hyfforddi Rhanbarthol, sy'n rhan o'r Academi Sgiliau Cenedlaethol – Niwclear, gan sicrhau bod y gweithlu lleol yn meddu ar yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i fod gyfochrog â'r gorau yn y byd erbyn 2010 a thu hwnt. Rydym yn croesawu penderfyniad y Clwstwr i ymestyn ei aelodaeth i sectorau eraill sydd ag angen staff peirianneg a thechnegol gyda golwg ar gydweithredu o ran hyfforddiant a datblygu sgiliau. Rhoddir cefnogaeth i Raglen Addasu Gweithlu Wylfa, i hwyluso'r trawsnewid o gynhyrchu trydan i ddadgomisiynu.

- *Datblygu sgiliau'r gweithlu – sicrhau statws RAF Y Fali fel y prif leoliad yn y DU ar gyfer hyfforddiant awyrennau jet cyflym*

  Byddwn yn gweithio gyda chontractwyr sector preifat yn RAF Y Fali gan sicrhau y cymerir pob cyfle i ddatblygu sgiliau technegol y gweithlu a chreu cyfleoedd gwaith newydd o ganlyniad i gyflwyno jet newydd Hawk 128, a datblygiadau arfaethedig eraill yn y ganolfan.

- *Sgiliau adeiladu*

  Byddwn yn adeiladu ar sefydlu'r Ganolfan Sgiliau Adeiladu newydd yng Ngholeg Menai trwy weithio gyda'r sector preifat i sicrhau bod gan yr ardal weithlu adeiladu medrus a brwdfrydig. Bydd hyn yn cynnwys rhoi Rhaglen Paru Swyddi Adeiladu ar waith.

- *Sgiliau peirianneg*

  Byddwn yn gweithio â chyflogwyr lleol, ysgolion a sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch er mwyn cynyddu'r cyflenwad o beirianwyr ifanc hyfedr, a hefyd annog mwy o ferched i ddilyn hyfforddiant, gan newid canfyddiadau pobl o beirianneg fel gyrfa, a chynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer meysydd sy'n datblygu, megis microgynhyrchu/ynni adnewyddadwy.

- *Y sector awyr agored*

  Byddwn yn gweithio gydag adrannau datblygu economaidd ac addysg y ddau awdurdod lleol gan ddatblygu dull strategol sy'n bodloni anghenion dysgu ac anghenion sgiliau y sector awyr agored, gan gynnwys rhoi sylw i faterion strwythurol a hyfforddiant, gan ymgysylltu'r boblogaeth leol â chyfleoedd lleol, a gwneud y cwricwlwm ysgol yn gydnaws.

- *Anghenion a seilwaith sgiliau eraill*

  Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid gan asesu a bodloni anghenion sgiliau i'r dyfodol mewn sectorau eraill, megis twristiaeth. Byddwn hefyd yn edrych ar yr angen a'r potensial ar gyfer sefydlu academi sgiliau o fewn ardal y rhaglen.

## *Darpariaeth dwristiaeth gref*

- *Dull strategol ar gyfer datblygu'r sector awyr agored*

  Byddwn yn cefnogi dull strategol ar gyfer datblygu'r sector awyr agored trwy ddarparu seilwaith, adeiladau a chyfleusterau arbenigol eraill.

- *Datblygu porthladd Caergybi*

  Byddwn yn gweithio gyda'r awdurdod lleol, awdurdodau'r porthladd a'r sector preifat i hwyluso datblygiad Caergybi, gan gynnwys ymchwilio i bosibiliadau datblygu docfa 'ochr yn ochr' er mwyn annog gwasanaethau mordaith.

- *Adfywio glannau Caernarfon*

  Byddwn yn ymgymryd â gwaith paratoi safle a darparu seilwaith gyda golwg ar ddod â datblygiad a hwyluso mynediad cyhoeddus at y glannau, gan adeiladu ar adfywio ardal Doc Fictoria a chyflwyniad llwyddiannus gorsaf derminws ogleddol Rheilffordd Eryri.

- *Faenol*

  Byddwn yn gweithio â'r perchnogion gan wella'r fynedfa i Ystad y Faenol trwy barc busnes Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Mharc Menai, ynghyd â seilwaith cysylltiedig. Bydd hyn yn helpu i uchafu potensial twristiaeth/hamdden y safle strategol hwn, sy'n agos at yr A55.

## *Canol trefi a mannau cyhoeddus deniadol*

- *Glannau Caergybi*

  Byddwn yn cefnogi datblygiad Porthladd Allanol a Glannau Caergybi, gan gynnwys y marina, tai a chyfleusterau ar y tir, gan ddarparu cyswllt effeithiol rhwng y dref a'r morglawdd.


*Porthladd Caergybi*

- *Canol dinas Bangor a'r glannau*

  Byddwn yn hwyluso gwelliannau amgylcheddol strategol i ganol dinas Bangor, gan adeiladu ar fuddsoddiadau diweddar ac arfaethedig gan y sector preifat a'r brifysgol, a chysylltu canol y ddinas â datblygiadau arfaethedig ym Mae Hirael.

- *Adfywio ffisegol ehangach*

  Yn ogystal â hyn, byddwn yn cefnogi prosiectau hanfodol, ond ar raddfa lai, mewn ardaloedd trefol allweddol, gan gynnwys canol pentrefi a chynigion gan Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf.

# Y Camau Nesaf…

Gan weithio mewn partneriaeth, rydym eisoes wedi cymryd amryw o gamau allweddol i roi momentwm cynnar i'r rhaglen. Mae'r rhain yn cynnwys sefydlu Consortiwm Sgiliau Rhanbarthol dan arweiniad cyflogwyr, i gyflenwi gwasanaethau'r Academi Sgiliau Cenedlaethol – Niwclear yng Nghymru, a rhaglen i ddatblygu cyfleoedd cadwyn gyflenwi i gwmnïau yng Nghymru, yn gysylltiedig ag Wylfa a Thrawsfynydd. Mae trafodaethau hefyd yn mynd rhagddynt â'r Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear ynglŷn â'r modd gorau i'r Rhaglen a'r Polisi economaidd-gymdeithasol weithio ynghyd wrth ymateb i ddynodi Môn a Meirionnydd yn ardal flaenoriaeth. Comisiynwyd astudiaeth ynni, ac mae cynllunio ar y gweill ar gyfer prosiectau buddsoddi allweddol yng Nghaergybi, Caernarfon, Bangor, Llanberis ac ardaloedd arfordirol Môn a Menai.

Wrth symud ymlaen, mae cyfranogiad ac ymglymiad rhanddeiliaid yn ganolog i ddull y rhaglen o weithio mewn partneriaeth. Anogir cynhwysiant cymdeithasol ac economaidd eang a chyfranogiad gweithredol gan bob grŵp, gan ddefnyddio strwythurau a chysylltiadau presennol lle bo modd – gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf / Partneriaethau Nesaf, yn ogystal â grwpiau busnes a phartneriaethau strategol lleol.

Byddwn yn gweithio gyda:

- **phartneriaid yn y sector** cyhoeddus er mwyn newid pwyslais a thargedu buddsoddiad bob blwyddyn er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau a rennir.

- y **sector preifat**, sy'n cynnwys tua 4,000 o fusnesau yn ardal Môn a Menai, gan sicrhau bod busnesau'n cyfranogi'n llawn yn natblygiad a chyflwyniad y Rhaglen.

- **sefydliadau sector** gwirfoddol yn yr ardal – fel adnodd cyflenwi pwysig, ond hefyd er mwyn annog trigolion yr ardal i gymryd cyfrifoldeb dros ganfod atebion lleol i'r materion allweddol.

Bydd yr egwyddorion craidd hyn yn sylfaen i bob agwedd ar ein gwaith:

- *Cyfle cyfartal* – byddwn yn rhagweithiol wrth ymdrin â rhwystrau i gyfranogi a llwyddo ac ni fyddwn yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw unigolyn neu grŵp.

- *Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)* – defnyddiwn y technolegau diweddaraf gan gynnwys y rhwydwaith band eang Cyflymder Ffeibr.

- *Creu'r cysylltiadau* - byddwn yn gwneud gwahaniaeth trwy ddeall y darlun cyfan, ac yna'n datblygu atebion cydgysylltiedig gyda'n partneriaid yn wyneb yr heriau a'r cyfleoedd sy'n ein hwynebu.

- *Datblygu cynaliadwy* – byddwn yn ymagweddu at welliannau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol mewn modd cydgysylltiedig, gan gymryd effaith posibl newid hinsawdd i ystyriaeth gan ymgorffori'r egwyddorion yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Creu Lleoedd Cynaliadwy'. Byddwn yn gweithio gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, y Comisiwn Coedwigaeth a Cadw wrth rychwantu proses Arfarniad o Gynaliadwyedd.



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government